

Patrwm cyflwyno *O fis Chwefror i fis Medi*
 O fis Hydref i fis Mehefin

Disgrifiad o'r cwrs

Nod y cwrs newydd hwn yw helpu myfyrwyr i ddylunio yn eu hardal leol drwy ddarparu amgylchedd stiwdio dylunio ar-lein, ynghyd ag adnoddau Web 2.0, a fydd yn eu galluogi i ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth am ddylunio. Bydd y cwrs yn addysgu dylunio mewn ffordd eang a chyffredinol, na fydd yn cyfyngu myfyrwyr i unrhyw un maes o ddylunio, ond a fydd yn eu hannog i ddeall prosesau sylfaenol dylunio – yr hyn rydym yn ei alw'n feddwl wrth ddylunio – er mwyn datblygu atebion priodol i'r problemau dylunio y maent yn eu gosod eu hunain. Caiff y cwrs ei gyflwyno ar-lein yn bennaf, a bydd gofyn i'r myfyrwyr lanlwytho eu gwaith dylunio ffisegol i'w tudalennau stiwdio dylunio digidol gan ddefnyddio fformatau priodol. Bydd hefyd agwedd gymdeithasol fawr ar y gwaith o ddysgu ar y cwrs hwn, a bydd gofyn i'r myfyrwyr rannu sylwadau ar waith myfyrwyr eraill, fel y byddent yn ei wneud mewn stiwdio dylunio gonfensiynol.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â'r [fanyleb gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir ym manyleb gyffredinol y person, dylech feddu ar y canlynol:

- gradd neu gymhwyster cyfatebol mewn disgyblaeth sy'n ymwneud â dylunio
- profiad dylunio ymarferol
- profiad o ddefnyddio Web 2.0 yn gyffredinol, a chymwysiadau gwefannau creadigol yn benodol a brwdfrydedd drostynt
- gwybodaeth am nifer o ddisgyblaethau dylunio a dealltwriaeth o ddull cyffredinol o fynd i'r afael ag addysgu dylunio
- parodrwydd i dreulio amser yn ymgysylltu â gweithgarwch dylunio ar gyfer y cwrs, gan ddarparu enghreifftiau arbenigol i'r myfyrwyr eu dilyn a'u trafod
- dealltwriaeth o'r dadleuon cyfredol ym maes dylunio.

Byddai'n ddefnyddiol pe byddech yn meddu ar y canlynol:

- profiad o addysgu ac asesu ym maes addysg dylunio
- ymrwymiad i ddulliau gweithredu cynaliadwy ym maes dylunio
- y gallu i feddwl yn greadigol
- parodrwydd i archwilio, gwerthuso, a thrafod y byd dylunio ar-lein gyda myfyrwyr.

Gwybodaeth ychwanegol

- Bydd y rôl yn cynnwys treulio amser ar-lein yn y stiwdio dylunio rithiwr, gan wneud sylwadau ar waith myfyrwyr a chyfrannu at ddadleuon sy'n mynd rhagddynt (fel mae gofyn i'r myfyrwyr ei wneud hefyd).
- Bydd y cyflwyniadau cychwynnol, yn anochel, yn cynnwys cryn dipyn o ddysgu i ymgysylltu â'r technolegau sylfaenol sy'n rhan o'r cwrs, a'r hyn sy'n dod i'r amlwg wrth i'r cwrs fynd rhagddo.
- Bydd gofyn i'r myfyrwyr gymryd rhan sylweddol mewn gwaith tîm ar y cwrs wrth gyflwyno, ac mae'r cwrs wedi cael ei ddylunio fel y gellir ychwanegu deunyddiau ychwanegol ar fyr rybudd, petai'r angen yn codi.

Manylion y modiwl – mae eglurhad llawn ar y wefan

Credydau a ddyfernir i'r myfyriwr am gwblhau modiwl yn llwyddiannus:	60
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	5
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	3
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	8
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	6.5

Gall fod cyfleoedd i Ddarlithwyr Cyswllt ymgymryd â gwaith asesu cysylltiedig y ceir tâl amdano a byddwn yn cysylltu â chi ar wahân amdano os yw'n berthnasol.